**DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

**HYSBYSIAD O FWRIAD I BRYNU YN ORFODOL DIR DROS RANDIR GARDD GAE WRTH GREEN MOOR LANE, MAGWYR YN SIR FYNWY**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH)) 201-**

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi'r gorchymyn prynu gorfodol drafft uchod a fydd, os y'i gwneir, yn awdurdodi prynu tir sy'n ffurfio rhan o Randir Gardd Gae, fel y diffinnir *"Field Garden Allotment"* yn adran 19 o Ddeddf Caffael Tir 1981 ("Deddf 1981"). Disgrifir yr ardaloedd o Randir Gardd Gae sydd i'w prynu yn yr Atodlen Gyntaf ("tir yr Atodlen Gyntaf") ac maent wedi eu lliwio'n binc ar y plan y cyfeirir ato ym mharagraff 5 isod. Disgrifir yr ardaloedd o dir sydd i'w rhoi yn gyfnewid am dir yr Atodlen Gyntaf yn yr Ail Atodlen ac maent wedi eu lliwio'n wyrdd ar y plan hwnnw.

2. Mae adran 19 o Ddeddf 1981 yn cynnwys darpariaethau i'r perwyl y bydd y Gorchymyn yn ddarostyngedig i weithdrefn seneddol arbennig i'r graddau y mae'n awdurdodi prynu tir sy'n ffurfio rhan o randir gardd gae oni bai yr ardystia'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod wedi ei fodloni

> bod tir arall wedi cael ei roi neu y bydd tir arall yn cael ei roi yn gyfnewid am y tir hwnnw, nad yw ei arwynebedd yn llai ac sydd yr un mor fanteisiol i'r personau, os oes rhai, a chanddynt hawliau rhandir gardd gae neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd, a bod y tir a roddir yn gyfnewid wedi ei freinio yn y personau yr oedd y tir a brynwyd wedi ei freinio ynddynt, neu y bydd yn cael ei freinio ynddynt, a'i fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau, ymddiriedolaethau a nodweddion a oedd yn gysylltiedig â'r tir a brynwyd

3. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 19 o Ddeddf 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672) ac fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn rhinwedd paragraff 33(4) o'r Atodlen honno, mae unrhyw offeryn a wneir wrth arfer y swyddogaethau hynny yn ddarostyngedig i weithdrefn arbennig y Cynulliad fel a bennir gan Reol Sefydlog 28 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni â'r materion hynny a nodir ym mharagraff 19(1) o Ddeddf 1981 ac yn ardystio'n unol â hynny.

4. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ffurfiol o'r bwriad i ddyroddi tystysgrif cyn penderfynu, er mwyn rhoi cyfle i sylwadau a gwrthwynebiadau gael eu gwneud. Rhoddent drwy hyn yr hysbysiad hwnnw. Dylai unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r bwriad hwn gael eu gwneud yn ysgrifenedig a'u cyfeirio at Yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu eu hanfon drwy e-bost i wales@pins.gsi.gov.uk cyn 4 Mai 2016 gan ddyfynnu'r cyfeirnod 516174.

5. Gellir gweld plan sy'n dangos yr ardaloedd o dir Rhandir Gardd Gae sydd i'w caffael a'r ardal o dir sydd i'w rhoi'n gyfnewid ar bob adeg resymol yn y lleoliadau a ganlyn:-

- Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ
- Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA
- Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Wales1, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG
- Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd. NP20 4UR
- Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, Casnewydd. NP20 1PA

6. Bydd Gweinidogion Cymru yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus lleol i'r achos pan fo'n ymddangos iddynt ei bod yn hwylus i wneud hynny.

**CHRIS LEA**
**Dirprwy Gyfarwyddwr**
**Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth**
**Llywodraeth Cymru**

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru.

## YR ATODLEN GYNTAF
## Y RHANDIR GARDD GAE SYDD I'W BRYNU

| | |
|---|---|
| 15/12 | 1458 o fetrau sgwâr o ran o randiroedd cofrestredig i'r gogledd o brif Linell Reilffordd De Cymru i Lundain a Green Moor Lane, ac i'r de-orllewin o gyffordd y B4245 a Blenheim Avenue.<br>Rhifau Cae X077 |
| 15/12a | 522 o fetrau sgwâr o ran o randiroedd cofrestredig i'r gogledd o brif Linell Reilffordd De Cymru i Lundain a Green Moor Lane, ac i'r de-orllewin o gyffordd y B4245 a Blenheim Avenue.<br>Rhifau Cae X077, Y077 |
| 15/12b | 308 o fetrau sgwâr o ran o randiroedd (man agored cyhoeddus) i'r gogledd o brif Linell Reilffordd De Cymru i Lundain a Green Moor Lane, ac i'r gorllewin o gyffordd y B4245 a Blenheim Avenue.<br>Rhifau Cae X077, X078 |

## YR AIL ATODLEN
## Y TIR SYDD I'W ROI YN GYFNEWID

| | |
|---|---|
| 15/17 | 5483 o fetrau sgwâr o ran o dir pori i'r gogledd o brif Linell Reilffordd De Cymru i Lundain, i'r de-orllewin o gyffordd y B4245 a Blenheim Avenue, ac i'r de o Green Moor Lane.<br>Rhifau Cae W078, X077, X078 |